| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | 5. Llythyr adref at rieni (CA2) |
| Disgrifiad: | Ysgrifennu - Mae Dylan yn ysgrifennu llythyr adref at ei rieni am ei ymweliad â Grandpa. |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | **Trefnu syniadau a gwybodaeth**<br>*Ystyr, dibenion, darllenwyr<br>Bl3:<br>• ysgrifennu at ddibenion a darllenwyr gwahanol gan ddewis geiriau er mwyn creu amrywiaeth a diddordeb.<br>Bl4:<br>• addasu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu yn ôl y diben a'r darllenydd, gan ddewis geiriau addas.<br>Bl5:<br>• ysgrifennu gyda'r diben yn amlwg gan ddangos ystyriaeth i'r darllenydd.<br>Bl6:<br>• addasu arddull ysgrifennu i'r darllenydd a'r diben.<br><br>*Strwythur a threfn:<br>Bl3:<br>• defnyddio strwythur elfennol ar gyfer ysgrifennu.<br>Bl4:<br>• defnyddio strwythuron penodol wrth ysgrifennu.<br>Bl5:<br>• defnyddio nodweddion sy'n dangos strwythur yr ysgrifennu.<br>Bl6:<br>• addasu strwythurau wrth ysgrifennu i gyd-destunau gwahanol.<br><br>**Ysgrifennu'n gywir**<br>*Iaith:<br>Bl3:/4/5/6: defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol |
| Testun Dylan Thomas | A Visit to Grandpa's<br>Darn o ddechrau tudalen 33 (*...into the fields on Llanstephan Road.)* |
| Offer angenrheidiol: | • Copïau o'r testun<br>• Gwaith a gwblhawyd mewn sesiynau blaenorol |

| | |
|---|---|
| Trefn a awgrymir: | • Trafod popeth a wnaed mewn sesiynau blaenorol yn enwedig y cymeriadau a sut maen nhw'n ymddwyn ac yn teimlo.<br>• Atgoffa'r dysgwyr am nodweddion llythyr anffurfiol. *(Cyfeiriad yn y cornel ar y dde, y dyddiad o dan y cyfeiriad, dechrau'r llythyr gydag 'Annwyl <enw'r person>', iaith eglur, syml ac anffurfiol. Gorffen y llythyr gydag 'Yn gywir', 'Cofion' neu hyd yn oed 'Cariad' os ydych chi'n eu hadnabod nhw'n dda iawn.)*<br>• Beth allai Dylan Thomas ei gynnwys yn ei lythyr adref at ei rieni? Ydych chi'n meddwl ei fod yn mwynhau aros gyda Grandpa? Enghreifftiwch rai syniadau.<br>• Gall Bl5 a 6 ysgrifennu llythyr fel Dylan, tra gallai Bl3 a 4 ysgrifennu cerdyn post byrrach. |
| Gweithgareddau estyn: | Cofnod dyddiadur wedi'i ysgrifennu o safbwynt Grandpa.<br><br>Defnyddio'r cyfryngau digidol: Defnyddiwch ap *Pages* i ysgrifennu'r llythyr neu gynhyrchu cerdyn post. Gellid defnyddio rhaglen arlunio yng Ngwaelod CA2 i dynnu llun o Llansteffan i flaen y cerdyn post. |
| Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill: | Top CA2 - llythyr<br>Gwaelod CA2 - carden bost |